

I mewn i'm swydd ar Zoom

Y mae Viv Sayer, Deon AWL Bro Dyfri, yn darganfod mai bod y person cyntaf i gael ei thrwyddedu o bellter yn ein hesgobaeth yn tipyn o ruthr



Pan gynigiwyd i mi ddau ddyddiad gan gaplan yr Esgob i'm trwyddedu fel Deon AWL, neidiodd Mai y pedwerydd allan fel un addas dros ben (bydd edmygwyr Star Wars yn deall).

Ciliodd natur arswydus y cyfrifoldebau newydd i raddau wrth i mi ddeall na fyddai'r trwyddedu yn digwydd yn y ffordd arferol. Mewn gwirionedd, byddwn yn ennill y statws o fod yr offeiriad cyntaf yn yr esgobaeth i gael fy nhrwyddedu ar Zoom, y rhaglen gynadledda electronig sy wedi bod yn achubudd bywyd yn ystod y Cloi.

Cynigiais yn llawen y gallem gael barti rhithwir wedi'r gwasanaeth yn lle'r te parti arferol yng nghefn yr eglwys. Derbyniwyd y syniad yn frwdfrydig ac felly paratoais gaws a phinafal ar brennau bach a rhoi gwyrmaid o win bybls allan o'r golwg.

Wrth gwrs roedd paratodau a natur mwy difrifol a defosiynol, yn ogystal â phethau ymarferol fel argraffu'r gwasanaeth a'r trwyddedau.

Erbyn 1 o'r gloch roeddwn bron yn barod. Dim ond angen troi'r bwrdd o gwmpas yn y stydi a chau y llenni – mae gan y stydi'r cryfder rhwydwaith gorau ond gall fod yn llachar iawn yn y prynhawn, gyda chanlyniadau difrifol i'r llun ar-lein. Roedd yn rhaid i mi gau'r llenni os nad oeddwn am edrych fel petai bag o flawd wedi ei wacau dros fy mhen.

Digon o amser, meddyliais; awr i fynd o hyd. Yna canodd y ffôn. Roedd yn alwad a fyddai wedi mynnu fy sylw ar yr amser gorau ond yn fwy fyth yn ystod y pandemig. Dim yn alwad i'w frysio...

Gyda munudau i fynd, roeddwn wedi cau y llenni o leia. Wrth geisio symud y bwrdd roeddwn ar fin tynnu'r gwifren rhyngwyd o'r soced. Wrth i'r cysylltiad farw, roeddwn ar y llawr yn ceisio fy ngorau i'm ail-gysylltu.

Yna canodd y ffôn. Y tro hwn fy ffrind gorau. 'Ble wyt ti?' gofynnodd. 'Roedd yr Esgob ar fin dechrau'r gwasanaeth pan sylweddolodd bod rhywun ar goll!'

Am 2yp yn brydlon roeddwn yn eistedd yn dawel wrth fy ngliniadur. I'm cyd-Zoomwyr, gobeithio, roeddwn yn edrych yn llonydd.

Aeth y gwasanaeth byr yn ei flaen yn ddi-drafferth, ac erbyn 3yp roedd y Deon newydd yn codi gwydr diolchgar i AWL Bro Dyfri. Diolch i Dduw.